Labour Llafur

NEWYDDION HENDY, LLANEDI a FFOREST

www.llanellilabour.org.uk www.niagriffith.org.uk

Nia Griffth AS yn croesawu Thales UK i hen safle yr MOD yn Llangennech.

Ar ôl cael ei thywys o gwmpas y cyfleusterau yn yr agoriad swyddogol yn Mis Tachwedd, dywedodd Nia Griffith AS, "'Rwy'n wrth fy modd bod Thales yn gwneud buddsoddiad mawr yn y safle hwn, gan ddod â swyddi gwerthfawr i'r ardal. Bydd y prosiect hwn o'r ansawdd uchaf yn golygu dodi'r systemau cyfathrebu mwyaf soffistigedig ac ymddiffyniad ychwanegol ar gerbydau newydd Warthog. Gyda'n traddodiad balch o ddiwydiannau modurol, mae gennym, fel sail, y sgiliau iawn yn yr ardal i ddenu arweinwyr technoleg trwy'r byd fel Thales ei hunan. "Mae'n dda gwybod, yn ogystal, bod sgiliau ein gweithlu yn cyfrannu at amddiffyn milwyr Prydeinig yn Affganistan. 'Rwy wedi bod yn trafod gyda rheolwyr Thales am ddod â gwaith ychwanegol i mewn, megis adnewyddu cerbydau'r heddlu a'r gwasanaethau argyfwng."

Syrjeri ymgynghori

Cynhelir y Syrjeri Ymgynghori y mis hwn ar Ddydd Gwener, 11 Rhagfyr rhwng 4.30 a 5.30 y prynhawn yng Nghlwb Criced yr Hendy a hwn fydd yr un olaf eleni. Felly, mae Nia Griffith AS a'r Cyng. Sir, Steve Lloyd-Janes am ddymuno i bob un ohonoch Nadolig Llawen a blwyddyn newydd, dda. Dywed y Cyng Steve Lloyd-Janes, "Mae'r newyddion gwych am Thales yn mynd i Langennech wedi tynnu ein sylw y mis hwn. Yma yn yr Hendy, bydd trigolion yn falch iawn i weld bod arwyddbyst newydd yn datgan *unffordd yn unig* wedi cael eu gosod ar waelod **Ffordd Bronallt**. Tan yn ddiweddar, 'roedd un ar goll. Golygodd hwn fod trafnidiaeth yn tueddu i ddod lawr yr heol o'r cyfeiriad anghywir." "Mwyaf allwn unioni, gorau oll i bob un ohonom. Cofiwch i roi gwybod i ni os gwelwch rywbeth sy'n galw am driniaeth a lle gallwn ni fod o gymorth."

Tawelu traffig ar hyd Heol y Parc a chanllawiau ddiogelwch yn Nhalyclun.

Mae canllawiau ddiogelwch ar gyfer cerddwyr yn cael eu gosod yn Nhalyclun. Mae'r Cyngor Sir yn gweithio ar y cyd â'r cyngor cymuned i osod mesurau gostegu traffig ar hyd Heol y Parc.

Parc yr Hendy

Ger mynedfa waelod y parc, mae gwaith wedi dechrau yn barod ar atiau newydd ac ar ail-newyddu'r Cofeb yn y golofn. Yn ddiweddar, cododd y Cyngor Sir byst gôl yn y parc er mwyn i'r ifainc gael chwarae pêl droed.

Nia Griffith AS
Rhadbost RSAK AXYC KLRB
6, Heol y Frenhines Fictoria,
Llanelli. SA15 2TL
01554 756374
griffithn@parliament.uk
www.niagriffith.org.uk

Y Cyng Steve Lloyd Janes
01792 882018
07929797212
slloydjanes@aol.com
www.grasscarper.bravejournal.com

Printed and promoted by Cllr Steve Lloyd Janes of 95 Iscoed Road, Hendy, SA4 0UW.